# Cofnodion Pwyllgor Dethol Sir Fynwy

**Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 28ain Ionawr, 2020 am 10.00 am**

| **Cynghorwyr Yn Bresennol** | **Swyddogion Yn Bresennol** |
| --- | --- |
| Cynghorydd Sir T.Thomas (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Sir: L.Brown, M.Groucutt, L.Jones, M.Lane, M. Powell, J.Watkins, R.John, P. Murphy<br><br>Hefyd yn Bresennol: P. Strong NEU | Will Mclean, Chief Officer for Children and Young People<br>Julie Boothroyd, Chief Officer Social Care, Safeguarding and Health<br>Jane Rodgers, Head of Children's Services<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad<br>Sian Schofield, Management Information Officer<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu |

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Sir D. Jones, F. Middleton and M. Harris

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Gwnaeth y Cynghorydd Maureen Powell ddatganiad o ddiddordeb personol nad yw'n rhagfarnu, fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd y Brenin Henry VIII.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

3. **Adrodd ar Berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant**

   Cyflwynodd y swyddogion adroddiad perfformiad ar gyfer chwarter 2, a oedd yn seiliedig ar y fframwaith perfformiad statudol ac a oedd yn cynnwys dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru, darparwyd cyd-destun lleol pan fo hynny'n berthnasol. Tynnodd y swyddogion sylw at y pwysau cynyddol sydd ar y gwasanaeth, gan fod nifer uwch o oedolion angen ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol.

   Clywodd yr aelodau bod y nifer o Blant Sy'n Derbyn Gofal (LAC) wedi cynyddu, sy'n gadarnhaol yn nhermau gallu helpu mwy o blant ond mae hyn yn rhoi pwysau ar y gwasanaeth. Dywedwyd wrth y pwyllgor bod mwy o bwyslais wedi bod ar gynnig cymorth yn gynnar (early help offer) a chynnig cymorth i deuluoedd (family support offer) a bod yr ymyriadau rhain yn cynorthwyo nifer o deuluoedd. Y gobaith yw y bydd y math yma o wasanaethau yn lleihau'r nifer o atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud. Clywodd aelodau y bydd y Tîm Teuluoedd Ynghyd (families together team) yn helpu plant i adael gofal ac ail ymuno â'u teuluoedd yn ystod yr 18 mis nesaf.

   Eglurodd y swyddogion bod angen cynyddu'r ddarpariaeth gofal maethu mewnol, am nad yw'n diwallu'r galw ar hyn o bryd. Eglurwyd bod strategaeth yn ei lle ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff sy'n ymwneud â gwaith cymdeithasol am eu bod yn cael anhawster recriwtio staff i'r tîm diogelu plant gan fod natur y rôl yn golygu bod pwysau mawr ar ysgwyddau'r staff.

**Her:**

- Rydych wedi nodi bod ein niferoedd LAC wedi cynyddu a bod hyn yn groes i'r tuedd a welir yng Nghymru, a'ch eglurhad yn yr adroddiad yw mai am ein bod yn dod yn fwy ymwybodol o achosion diogelu plant y mae'r niferoedd yn cynyddu. A yw ein prosesau asesu yr yn fath â phrosesau cynghorau eraill? Pam bod ein niferoedd yn uwch?

*Mae asesiad trylwyr yn cael ei wneud cyn i unrhyw blentyn ymuno â'r rhestr diogelwch. Mae'ch cwestiwn yn un anodd i'w ateb am nad oes targed delfrydol ar gyfer nifer ein achosion. Rwy'n hyderus bod ein prosesau'n union fel y dylent fod. Gall ein arferion newid a gwella bob amser, ond a fyddai hynny'n gostwng y niferoedd? Mae'n anodd dweud. Nid yw gweld niferoedd yn codi neu'n gostwng yn fater cadarnhaol nac yn un negyddol. Yr hyn sy'n bwysig yw penderfynu a yw ein trothwy'n gywir. Mae ein dull o weithio'n un aml-asiantaeth sy'n seiliedig ar batrwm Gwent.*

- Rydych wedi crybwyll anawsterau o ran recriwtio? A oes unrhyw ffordd o wneud y swydd yn un mwy amrywiol?

*Rydym yn ail edrych ar sut y dylem strwythuro a rheoli llwyth gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd, ac mae'r holl staff cymwys yn gwneud elfennau o'r gwaith, ond mae rhai timau'n gwneud mwy ohono a dyma'r darlun a welir ledled Cymru. Rydym yn adolygu hyn yn barhaus ac rydym yn teimlo bod y strwythur cywir yn ei le gennym ar hyn o bryd o ran y ffordd yr ydym yn rheoli gwaith y tîm ac yn creu'r diwylliant cywir.*

- Rydych yn dweud bod ein niferoedd LAC wedi cynyddu o'u cymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru. A oes unrhyw berthynas rhwng hyn a'r ystadegau o ran camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl? A ydym yn gwneud gwaith cefnogol gyda theuluoedd ar hyn?

*Ydym, rydym yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn deall yr hyn sydd angen newid a rhoddir y gefnogaeth ar ffurf 2 ffrwd –cefnogaeth ar lefel cyn ymyrraeth, a chefnogaeth sy'n dilyn i mewn i ofal addysg.*

- A yw'r gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi i'r rheiny sy'n gadael gofal yn ddigonol?

*Ydy, rydym yn darparu cefnogaeth i'r rheiny sy'n gadael gofal. Mae gan bob un becyn sydd wedi ei deilwra'n arbennig ar eu cyfer. Mae gan rai pobl broblemau penodol ac felly mae angen i ni deilwra pob pecyn.*

- A oes modd i chi egluro'r problemau sy'n ymwneud â recriwtio gofalwyr maeth a'r berthynas â MIST?

Recriwtio gofalwyr maeth yw'r broblem sydd gennym, ac mae'n broblem barhaus. Mae bwlch yn y cyflog, ac felly mewn gwirionedd, ein cynnig o gefnogaeth sy'n ein gwneud yn wahanol i eraill ac yn denu pobl i ddod yn ofalwyr maeth yn Sir Fynwy. Ein dull o ran gofalu am blant, yn arbennig, sy'n denu gofalwyr maeth atom. Mae'r prosiect MIST yn canolbwyntio ar gael y gofalwyr iawn.

**Casgliad a Chanlyniad y Cadeirydd**

Rydym wedi craffu ar hyn mewn manylder ac mae'r pwyllgor yn deall natur y problemau y mae swyddogion yn eu hwynebu. Rydym yn cytuno fel pwyllgor bod y gwasanaeth yn ymdopi i orau ei allu gyda'r galw sydd arno. Rydym hefyd yn cytuno yr hoffem graffu ar y gefnogaeth y mae'r rheiny sy'n gadael gofal yn ei gael er mwyn cael gwell dealltwriaeth ohoni. Felly amserlennu adroddiad ar becyn y rheiny sy'n gadael gofal a MIST.

## 4. Adroddiad Monitro'r Gyllideb - Mis 7

Awgrymodd y swyddogion mai doeth fyddai trafod yr Adroddiad Monitro Cyllideb ar gyfer Mis 7 ar y cyd â'r cynigion drafft o ran Cyfalaf a Refeniw ar gyfer 2020-21 gan fod yr adroddiad monitro cyllideb yn darparu'r cyd-destun ehangach o ran yr heriau a wynebir yn y flwyddyn bresennol ac hefyd yn y dyfodol.

Clywodd yr aelodau bod y cyngor yn wynebu heriau enfawr ar ddiwedd mis 7. Mae gorwariant gwasanaethau'n sylweddol o'u cymharu â gorwariant blynyddoedd diweddar. Eglurodd y swyddogion ein bod wedi llwyddo i reoli gorwariant yn ystod blynyddoedd blaenorol, a'n bod fel arfer, ar adeg alldro'r cyllideb, yn adennill y costau neu hyd yn oed yn dychwelyd gwarged, ac rydym yn parhau i ymdrechu i fod yn yr un sefyllfa eleni.

Ym mharagraff 3.2 mae tabl sy'n dangos gwarged net o 4m ar gyfer y cyngor. O ran cyd-destun, mae'r rhain yn deillio o 3 maes:

- Pwysau ar y Gwasanaethau Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal
- Pwysau o fewn gofal cymdeithasol i oedolion
- Cefnogaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Eglurodd y swyddogion, gan nad oes gennym lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, rydym wedi gorfod rhoi cynlluniau adfer yn eu lle er mwyn ymateb i'r sefyllfa yr ydym ynddi. Nod y cynlluniau adfer yw lleihau gwariant dianghenraid ac, ble mae hynny'n bosibl, creu arbedion pellach a cheisio cael gafael ar y sefyllfa bresennol.

Cyfeiriwyd y pwyllgor at baragraff 3.10 yn yr adroddiad, sy'n dangos y sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd ac sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'n cynllun gweithredu. Dywedodd y swyddogion ein bod yn rhag-weld diffyg o £3.987m ac rydym yn ffodus y byddwn yn gallu talu'r dyfarniad cyflog i athrawon yn y flwyddyn ariannol bresennol, gan fod £310 mil ohono'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr arbediad TAW o ganlyniad i reol Ealing, sy'n ymwneud ag incwm gwasanaethau hamdden, hefyd yn helpu'r sefyllfa. Clywodd yr aelodau bod ymgynghorwyr wedi eu penodi i weithio gyda ni ar yr arbediad hwn er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i ni lwyddo. Clywodd y pwyllgor bod gennym bellach yr hyblygrwydd i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i dalu costau sy'n gysylltiedig â diwygio gwasanaeth. Cyn hyn, roedd angen caniatâd ond bellach, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gall y Cyngor wneud y penderfyniad. Ymhellach i hyn, rydym wedi bod yn edrych yn fanwl ar ein gwariant er mwyn dod o hyd i gostau sy'n ymwneud â diwygio gwasanaeth. O ganlyniad rydym wedi canfod dros £2m o gostau diwygio y gellid eu talu gan ddefnyddio derbyniadau cyfalaf.

Gall pwysau'r gaeaf fod yn her o hyd o ran y gyllideb, yn ogystal â'r meysydd gwasanaeth anweddol sy'n rhoi pwysau mawr, yn enwedig gwasanaethau plant, fodd bynnag, rydym yn edrych ar ble rydym yn sefyll o ran hyn, ymhell cyn y sefyllfa gyllidol alldro.

O ran y sefyllfa cyfalaf, mae tanwariant bychan yn gysylltiedig ag Ysgolion y 21ain Ganrif. Dangosir derbyniadau cyfalaf yn yr adroddiad ac mae'r penderfyniad i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf mewn ffordd hyblyg wedi cael effaith ar y rhain. Bydd yr effaith i'w weld eleni a'r flwyddyn nesaf, ond mae'n rhaid cydbwyso'r pwysau ar y cyfrifon refeniw gyda'r cyfalaf. O ran mis 7, mae'r adroddiad yn amlinellu'r manylion o ran gorwariant a thanwariant sy'n benodol i gylch gwaith y pwyllgor, ynghyd â sylwadau'r cyfarwyddwyr.

Rydym wedi crybwyll y gyfarwyddeb cyfalafu yn barod ac rydym wedi trosglwyddo gwariant o £500 mil drosodd i'r gyllideb cyfalaf. O ran arbedion, wrth gyfeirio at baragraff 3.11, fe welwch, o'r £6.446 miliwn sydd wedi ei adeiladu i mewn i'r gyllideb ar gyfer eleni, rydym wedi dod i hyd i 86%. O ran gweddill yr arbedion dan sylw, mae oedi wedi bod neu maent yn anghyraeddadwy a darperir mwy o fanylion yn yr adroddiad. Ceir manylion ar gyfer portffolio'r pwyllgor hwn yn yr atodiad.

Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid ar gyfer Gofal a Iechyd Cymdeithasol bod paragraff 3.60 yn rhoi manylion am y camau lliniaru sydd wedi eu cymryd er mwyn ymateb i'r gorwariant o fewn Gwasanaethau Plant a'r cynnig i osod derbyniadau cyfalaf yn erbyn gorwariant. Yn yr un modd, mae paragraff 3.9 yn manylu ar faint o gyfalaf fydd yn cael ei ddefnyddio i gryfhau'r gyllideb refeniw, gan ychwanegu nad oes cyfalaf yn nghyfarwyddiaeth y gwasanaethau cymdeithasol. Eglurodd fod gosod nifer o dargedau er mwyn gwneud arbedion yn rhan o'r broses gosod cyllidebau, a theimlir nad yw hyn yn gyraeddadwy.

Pwysleisiodd y Rheolwr Cyllid ar gyfer Addysg bod paragraff 3.2 yn egluro bod y gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc wedi gorwario o ran cefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol. Pwysleisiodd y sefyllfa o ran dileu swyddi o fewn ysgolion, dyfarniadau cyflog athrawon a chyllidebau ysgolion unigol, a grybwyllwyd eisoes.

**Her:**

- Mae ysgolion sydd mewn diffyg yn achosi pryder mawr Mae'n ymddangos bod gan ysgol King Henry gynllun ar y gweill, ond mae'r diffyg yng Nghil-y-coed a Trefynwy'n cynyddu er bod ganddynt gynlluniau yn eu lle, felly fy nghwestiwn yw, pa waith sy'n digwydd o ran lliniaru'r sefyllfa?

*Mae gan King Henry gynllun yn ei le, ond nid ydynt yn ei gyrraedd ar hyn o bryd. Mae gwelliant bychan i'w weld yng Nghil-y-coed. Dim ond blwyddyn o'r cynllun arbed a welir yn yr adroddiadau rhain, mewn gwirionedd mae'n fwy defnyddiol edrych ar y cynnydd dros gyfnod o 3 blynedd. Rydym yn monitro'r ysgolion yn fisol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwneud gwelliannau. Rydym yn gweithio gyda Cil-y-coed ar rai mentrau 'buddsoddi i wella', felly mae'n bosib y byddwch yn gweld cynnydd yn y lle gyntaf, ond maent ar y llwybr cywir o ran cyrraedd eu targed o ddod yn ôl.*

- Gwyddom fod Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cynyddu felly ni allwn weld sut y mae modd i ni wneud arbedion, gan ystyried na allwn ddefnyddio cyfalaf. Felly beth yw'ch cynlluniau hirdymor i ddatrys hyn?

*Rydych yn gywir wrth ddweud nad oes nifer o gamau y gallwn eu cymryd a byddwn yn trafod hyn yng nghynigion y gyllideb. Rydym yn ceisio lleihau costau o ran comisiynu, ond rydym yn brwydro yn erbyn pwysau aruthrol.*

**Canlyniad y Cadeirydd:**

Rwy'n meddwl ein bod yn rhannu'r un pryder, sef bod ein holl ysgolion uwchradd mewn diffyg mawr a nifer o'n hysgolion cynradd hefyd. Mae'n rhaid i ni dderbyn y gwahaniaethau rhwng ysgolion ac rydym yn derbyn bod hyn yn ddarlun cenedlaethol, ond dyw hyn yn fawr o gysur i brifathrawon sy'n ceisio rheoli'r sefyllfa. Byddwn yn parau i fonitro hyn yn ofalus a gobeithiwn weld rhai gwelliannau.

5. **<u>Craffu ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21</u>**

O gofio bod cyd-destun cynigion y gyllideb wedi eu gosod yn Adroddiad Monitro'r Gyllideb Mis 7, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r swyddogion yn cyflwyno'r prif bwyntiau cyn symud ymlaen at y cwestiynau.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod y broses o osod cyllidebau'n cychwyn, bob blwyddyn, gydag asesiad o'r gyllideb sylfaenol, y pwysau y gwyddom amdanynt, Setliad Llywodraeth Cymru a mewnbwn Treth Cyngor, ac yna mae angen ceisio cau'r bwlch gyda chynigion ar gyfer arbedion. Pwysleisiodd y swyddogion ein bod wedi gorfod lleihau'r gyllideb dros sawl blwyddyn, felly wrth ystyried pwysau £9.7 miliwn ac yna pwysau o ran cyflogres, mae'r pwysau bellach yn gyfystyr â £11.25 miliwn. Eglurwyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r dyfarniad cyflog i athrawon, nid yw hyn wedi mynd yn ddigon pell o ran cwrdd â'r £11.2 miliwn. Eglurodd yr aelod cabinet bod gennym fwy o gostau sydd angen eu talu, a'n bod yn gorfod cynnig arbedion sy'n amhoblogaidd yn y pen draw gan arwain at yr angen i godi treth cyngor.

Mae'r meysydd sy'n rhoi'r pwysau ariannol mwyaf, o fewn cylch gwaith y pwyllgor, wedi eu trafod eisoes, yn enwedig y pwysau o £3 miliwn ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a'r £5 miliwn ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sef yr un pwysau dro ar ôl tro.

**Her:**

- A oes costau cudd yn y ffigurau rhain a fyddai'n cyfiawnhau'r angen am ysgol arbennig?

*Rydych yn gywir wrth ddweud bod pwysau ar wasanaeth trafnidiaeth cartref i'r ysgol mewn sir wledig. Mae dadleuon dros ysgol arbennig wedi eu cyflwyno droeon ond mae'n rhaid amau a ellid sefydlu un sy'n effeithiol o ran sgôp a graddfa ar gyfer Sir Fynwy. Mae hyd yn oed cario plant o'r gogledd i'r de yn gostus ac rydym wedi cytuno i ddod â chynigion ger bron o ran cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.*

- Mae'r Aelod Cabinet wedi crybwyll cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i drafod fformiwla cyllido a'n cais am gyllid gwaelodol. A oes modd i chi ein diweddaru ar gynnydd os gwelwch yn dda? Ac a oes mod i chi roi sicrwydd ni, pe byddai cyllid ychwanegol yn cael ei roi, y byddech yn ystyried tynnu'r toriad o 2% i gyllidebau ysgolion unigol yn ôl?

Pe byddai cyllid gwaelodol yn cael ei gytuno, byddai'n rhoi £833 mil ychwanegol, a phe byddem yn llwyddo i sicrhau'r arian yma, byddem yn ail edrych ar y toriad o 2% i gyllidebau ysgolion unigol. Ni allaf roi ateb pendant, gan fod hyn yn ddibynnol ar p'unai y byddwn yn derbyn cyllid ychwanegol neu beidio, ond o ran cynnydd, rydym yn ymwybodol bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru.

- Felly, pe na byddem yn derbyn cyllid ychwanegol, sut y byddai disgwyl i ysgolion ymdopi â thoriad o 2% i'w cyllideb, oherwydd mae'n anochel bellach ein bod yn sôn am gostau staff?

*Mae hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb gan nad yw penderfyniadau ar staff yn cael eu gwneud gan y corff llywodraethu. Mewn nifer o'n hysgolion, mae costau staffio'n uchel iawn gan bod staff profiadol wedi cyrraedd brig eu graddau cyflog, ond y neges graidd gan benaethiaid yw y bydd hyn yn arwain at doriadau staff. Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ddod o hyd i ddatrysiadau eraill.*

*Aelod o'r Cabinet – Rydym eisoes wedi gwneud yr holl arbedion mawr y gallwn eu gwneud. Rydym mor ddiwastraff ag y gallwn fod, felly peidiwch â lledaenu'r baich i weddill yr awdurdod, bydd yn anghymesur i weddill yr awdurdod. Yr hyn sy'n annheg yw'r lefel isel o gyllid yr ydym yn ei derbyn. Pe byddem yn derbyn cyllid ychwanegol, gallem wneud penderfyniadau gwahanol.*

- Eglurwch sut mae'r system benthyciadau'n gweithio os gwelwch yn dda?

*Rydym yn cydnabod, o dan drefniadau ariannu teg presennol, mai dim ond 3 blynedd sydd gan ysgolion i dalu diffygion yn ôl, sy'n heriol iawn. Mae'r system yn caniatáu i'r diffyg gael ei dalu'n ôl dros gyfnod hirach er mwyn lleihau'r effaith.*

- Mae'r benthyciadau'n ddi-log ar hyn o bryd, ond mae hyn ar sail cyfraddau llog isel. Pe byddent yn codi, does bosib y byddai hyn yn cael effaith. Byddai'n well gen i pe na byddai'r ddyled yn dwyn llog o gwbwl.

*Yn anffodus, nid yw'r arian yma gennym i'w fenthyg, mae'n rhaid i ni ei fenthyca, felly rydym yn talu llog arno. Yr hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd yw ein bod yn ei amsugno ac yn ei gadw oddi wrth ysgolion a bod ysgolion yn parhau i geisio clirio'r diffygion yn gynnar.*

- A yw hyn yn golygu y gallai ysgol gymryd benthyciad yn awr am gyfnod o 10 mlynedd a thalu mwy nac y maent wedi ei fenthyg yn ôl?

*Byddai'r sefyllfa hon yn annhebygol am y byddai'r benthyciad ar gyfradd sefydlog.*

- A oes modd i chi egluro unrhyw fesurau sydd mewn lle i liniaru gorwariant gwasanaethau plant, gan dderbyn bod y sefyllfa hon yn un anodd tu hwnt?

*Bydd angen buddsoddi yn lle cyntaf er mwyn ehangu strwythur y tîm MIST, ond fe ddylai hyn arbed arian yn y tymor hir drwy leihau'r gwaith sydd angen ei roi i gyfreithwyr allanol. Er gwybodaeth y pwyllgor, ar gyfartaledd, mae cyfrifoldeb am blentyn sy'n derbyn gofal yn costio £40 mil, felly byddai 10 plentyn y flwyddyn yn costio £400 mil, ac nid oes modd cuddio rhag hyn.*

**Casgliad y Cadeirydd:**

Rydym wedi trafod y prif bwysau ariannol, y mesurau lliniaru y mae swyddogion wedi eu rhoi yn eu lle a'r posibilrwydd o dderbyn cyllid gwaelodol y byddai'r cyngor yn elwa'n sylweddol ohono, yn enwedig gwasanaethau plant. Rydym yn cefnogi'r aelod cabinet yn hyn o beth a gofynnwn i gael ein diweddaru ar gynnydd. Mae gennym bryderon o ran y toriadau o 2% i ysgolion ac

rydym yn cydnabod pryderon yr ysgolion. Mae gennym bryderon, hefyd, o ran strwythur y system fenthyca, o ran chwyddiant. Rydym yn cydnabod y gellid gwneud arbedion posibl o ran costau cyfreithiol drwy roi'r prosiect MIST ar waith yn gwasanaethau plant.

6. **<u>Y diweddaraf ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4</u>**

Rhoddodd y prif swyddog dros addysg gyflwyniad byr i'r adroddiad, gan ddweud bod llawer o waith dadansoddi data'n cael ei wneud cyn cyflwyno'r fath adroddiad i'r pwyllgor. Mae cynnydd yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn faes sydd wedi derbyn cryn sylw ers sawl blwyddyn bellach. Clywodd y pwyllgor bod y fframwaith o ran adrodd yn ôl wedi newid. A bod eglurhad o'r fframwaith adrodd yn ôl newydd wedi ei drafod yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Eglurodd yr EAS fod yr adroddiad hwn yn amserol o ystyried y cwricwlwm newydd. Cyflwynodd yr EAS yr adroddiad, gan fynd ag aelodau trwyddo a rhoi eglurhad manwl ar y data a'r canfyddiadau. Clywodd yr aelodau mai rhan o'r stori'n unig y gall data ei ddangos a bod safon y dysgu hefyd yn hanfodol. Eglurodd y prif swyddog dros addysg bod hyfforddiant ar ddata ar gyfer llywodraethwyr wedi cael ei adolygu a bod cyfle yn awr i feddwl am ein disgwyliadau, sef bod ysgolion uwchradd yn perfformio'n well nag y maent ar hyn o bryd ac nad yw pethau'n dirywio wedi i blant adael ysgolion cynradd. Cyflwynodd yr heriau o ran sut mae ysgolion yn cymharu gyda'u teuluoedd o ysgolion, er mwyn gwneud cymhariaeth go iawn a dywedodd bod trafodaethau'n cael eu cynnal yn barhaus gydag ysgolion uwchradd er mwyn deall y cynnydd y maent yn ei wneud a'r newidiadau y byddant yn eu gwneud er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyrraedd.

**Her:**

- Mae gennyf bryderon ynghylch y garfan o blant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a'r holl anawsterau y mae'r plant yma'n eu hwynebu, a'm mhryder yw sut y mae'r cyngor yn ymateb i'r tlodi yma. Mae gennym bocedi o dlodi difrifol yn y sir hon, felly nid lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol yn unig yw'r nod, mae hyn yn ymwneud â sut yr ydym yn ymateb i ddarlun llawer ehangach ac effaith y tlodi yma. Byddem yn croesawu clywed gan Ysgol y Brenin Henri ynglŷn â sut y maent yn ymateb i hyn. Fe ddylai'r ysgol edrych ar y nifer fechan o bant sy'n agored iawn i niwed sydd yno ac edrych ar sut y gallent gefnogi pob un ohonynt. Gan gydnabod y bydd yr EAS yn edrych ar hyn, fe hoffem gynnig ein bod yn gwahodd Ysgol y Brenin Henri i'r pwyllgor er mwyn edrych ar y rhesymau ehangach pam nad yw pobl ifanc yn cyflawni eu potensial.

*Rwy'n cydnabod eich safbwyntiau ar y mater hwn, ac yn fy nau adroddiad prif swyddog diwethaf, fe geisiais egluro i'r aelodau pa mor gymhleth yw'r mater hwn, ac egluro effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE's) ac yn benodol ei effaith ar ddysgwyr. Mae'n bwysig ein bod yn mynd gam ymhellach na chanfod pwy yw'r plant yma, a gwneud ymyriadau er mwyn eu helpu. Mae angen i ni gymryd yr holl boblogaeth fregus i ystyriaeth, a'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth hyn yw'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal â phlant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.*

*EAS – Mae gan bob ysgol uwchradd arweinydd dysgwr bregus a ariennir gan yr EAS ac maent yn gweithio gyda'u gilydd ar edrych ar arfer gorau ac rydym yn bwriadu dod ag adroddiad ar hyn i'r pwyllgor yn y dyfodol. Rydym wedi edrych ar ddata disgyblion unigol, ond y cwestiwn yw, beth nesaf?*

Prif Swyddog – Dyma'r flwyddyn gyntaf i waith adrodd yn ôl o'r fath gael ei wneud ac nid yw'r gwaith yn dangos data cyfanredol ar draws cynghorau eraill. Rydym yn eistedd yn nhraean uchaf y tabl, ond rwy'n llawn sylweddoli y dylem fod ar y brig.

**Casgliad y Cadeirydd:**

Rydym wedi craffu'n llawn ar y mater hwn ac rydym wedi cytuno i wahodd Ysgol Uwchradd y Brenin Henri i gyfarfod yn y dyfodol ac fe arhoswn am adroddiad pellach ar y cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim.

7. **Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg**

Cyflwynodd yr EAS eu hadroddiad a oedd yn cynnwys eu Cynllun Busnes ac atodiad y llywodraeth leol, y mae ymgynghoriad yn digwydd arnynt ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Eglurwyd eu bod yn cyflwyno'r cynllun hwn i bwyllgorau craffu pob cyngor a'r swyddogion gweithredol am eu bod yn perthyn i'r 5 cyngor a'u bod yn gorff nid-er-elw. Tynnwyd sylw'r aelodau at baragraff 3.8 er mwyn dangos y cysylltiad rhwng blaenoriaethau Sir Fynwy a'u blaenoriaethau cyffredinol, gan awgrymu meysydd y mae angen i ni barhau i weithio'n gydweithredol arnynt. Pwysleisiwyd hefyd, ym mharagraff 3.24, y risgiau, cyn gwahodd cwestiynau.

**Her:**

- Rydych yn cyfeirio at risgiau Sir Fynwy ym mharagraff 3.24 ac rydych hefyd wedi crybwyll gwaharddiadau mewn ysgolion, felly dyma gwestiwn i'r prif swyddog dros addysg, ai toriadau i gefnogaeth staff, megis cynorthwywyr dosbarth sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn gwaharddiadau mewn ysgolion?

Does bosib mai ffordd effeithiol o leihau'r nifer o waharddiadau fyddai cynyddu'r cyllid?

A dyma gwestiwn i'r EAS – os ydych yn ymgymryd â chwricwlwm newydd, a'ch bod hefyd angen codi safonau o ran y cwricwlwm presennol, yn ogystal â pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, a oes gennych ddigon o gyllid i wneud y ddau?

*Prif Swyddog – Rydym yn cydnabod bod hyn yn achosi pryder cynyddol, a rhoddwyd cydnabyddiaeth i hyn gennyf yng nghynllun y llynedd. Rydym wedi rhoi Cefnogaeth Atgyfeirio Disgyblion mewn i'r ysgolion ar sail cynllun peilot er mwyn gweld a fydd y gefnogaeth yn gweithio, ond o ran cynorthwywyr athrawon a staff cefnogol, wrth edrych ar y niferoedd, nid ydynt mor llwm ag y maent yn ymddangos. Y llynedd roeddem yn canolbwyntio ar leihau gwaharddiadau, ond eleni rydym yn edrych ar y rhesymau dros y gwaharddiadau ac yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi'r disgyblion.*

*EAS – Rydym yn hyderus y gallwn, o fewn y model ariannu presennol, lwyddo. Rydym eisoes wedi datblygu set o ddisgwyliadau cyffredin ar draws Cymru.*

**Casgliad**

Mynnodd y pwyllgor bod yr EAS yn atebol heddiw, ac o gofio ein bod yn eu hariannu, mae hon yn swyddogaeth bwysig iawn. Rydym wedi ystyried eu blaenoriaethau a sut mae'r blaenoriaethau rheiny'n alinio â'n blaenoriaethau ni ac rydym yn fodlon gyda'r aliniad. Yn ogystal, rhoddwyd hyder i ni gan yr EAS bod ganddynt gyllid i gyflawni'r Cynllun Busnes felly rydym yn hapus i'w gefnogi.

8. **Strategaethau Cyrhaeddiad**

Croesawodd y pwyllgor y cyfle i gyfarfod yn uniongyrchol gyda phennaeth a dirprwy bennaeth Ysgol Uwchradd Cas-gwent er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u ffactorau llwyddiant o ran gwella cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ogystal â thrafod yr heriau y maent yn eu hwynebu fel ysgol sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Cyflwynodd y pennaeth y dirprwy bennaeth Kelly Bowden sy'n Bencampwr Prydau Ysgol am Ddim yn Ysgol Uwchradd Cas-gwent. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod Prydau Ysgol am Ddim yn fater cymhleth a bod yr ysgol wedi gweithio ar nifer o strategaethau, ac wedi troi cefn ar rai ohonynt. Cyfaddefodd yr ysgol nad yw'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim cystal ag y dylent fod, a bod hyn yn ddarlun a welir ar draws Cymru.

Eglurodd yr ysgol eu bod yn edrych ar fesur ehangach na'r 5 TGAU yn unig, a chyflwynwyd gwybodaeth (atodiad 1) er mwyn dangos rhai o'r mesurau ehangach rheiny. Eglurwyd eu bod wedi penderfynu asesu'r plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar draws yr ysgol gyfan, ac nid y plant sy'n nghyfnod allweddol 4 yn unig. Dywedwyd mai un o'r mesurau sydd wedi bod fwyaf effeithiol yw gwneud ymweliadau â'r cartref i siarad gyda theuluoedd er mwyn deall y ffordd orau o gefnogi anghenion y plentyn.

Ffactorau allweddol eraill yw safon uchel o ddysgu a chwricwlwm sy'n addas ar gyfer anghenion dysgwyr. Bu iddynt gadarnhau bod yr arolwg yr ymgymerwyd â hi wedi dangos bod plant yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol a bod hyn yn rhywbeth y maent yn falch ohono. Pan ofynnwyd i blant pa werthoedd sy'n bwysig iddynt, cydraddoldeb oedd ar y brig, ni waeth beth fo cefndir y plentyn, ac eglurwyd y byddai'r 5 gwerth oedd ar y brig yn ffurfio rhan o ddatganiad cenhadaeth yr ysgol, wrth i'r plant chwarae rhan allweddol wrth osod cyfeiriad ac ethos yr ysgol.

**Her:**

- Gallaf ddychmygu bod symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn gam enfawr i bob plentyn, ond yn enwedig i bobl ifanc sy'n agored i niwed, a gallaf ddychmygu ei bod yn hawdd iawn syrthio'n ôl, felly beth ydych chi'n wneud gyda'r ysgolion cynradd er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r disgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol uwchradd?

*Rydym yn adeiladu cwricwlwm newydd ac rydym yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd lleol er mwyn deall pa blant y mae angen i ni eu cefnogi, gan y bydd rhai o'r plant yn mynd i Wyedean ac nid Cas-gwent. Rydym yn hyderus bod gennym reolaeth dros y sefyllfa. Cymaint yw'n ffydd mewn swyddogion ymgysylltu â'r teulu, rydym wedi penodi ail un.*

- A ydych chi wedi gwerthuso eistedd TGAU dros 3 blynedd yn hytrach na 2?

*Rydym yn teimlo mai mynd yn ôl at eistedd TGAU dros gyfnod o 2 flynedd yw'r peth iawn i'w wneud i'n dysgwyr. Rydym yn edrych ar adeiladu'r cwricwlwm a byddwn yn monitro'r effaith, oherwydd nid ydym yn gwybod sut y bydd cymwysterau'n edrych yn y dyfodol.*

- A oes modd i chi dynnu sylw at rai o'r heriau sy'n gysylltiedig â bod yn ysgol ar y ffin?

*Rydym wedi gweld gostyngiad yn ein niferoedd, mae cludiant hefyd yn broblem fawr i ni, yn ogystal â rhai problemau o ran recriwtio. Rydym yn credu'n gryf mewn dathlu'r Iaith Gymraeg, ond mae'n rhaid i ni fod yn ofalus o ran Bagloriaeth Cymru, am nad yw rhai rhieni eisiau i'w plant weithio tuag at y cymhwyster yma.*

**Casgliad y Cadeirydd:**

A ran y pwyllgor, fe hoffwn longyfarch eich hysgol ar y gwaith anhygoel yr ydych wedi ymgymryd ag o er mwyn adeiladu undod a cheisio cefnogi eich disgyblion sydd fwyaf agored i niwed. Fe hoffwn fod wedi cael mwy o amser i siarad â chi heddiw, ond rydym yn gwerthfawrogi eich amser yn fawr ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i glywed gennych yn unionyrchol. Roedd y pwyllgor wedi cytuno yr hoffai wahodd Ysgol Uwchradd y Brenin Henry i siarad am eu strategaethau ac rydym wedi cytuno y bydd hyn yn cael ei raglennu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

**9. <u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

**Cydbwyllgor Dethol Oedolion, Plant a Phobl Ifanc - 5ed Medi 2019**

**10. <u>Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc</u>**

Nodwyd, gydag ychwanegiadau o gyfarfod heddiw:

- Gwahodd Ysgol Uwchradd y Brenin Henri VIII i siarad am eu strategaethau o ran cefnogi disgyblion sy'n agored I niwed

- Anghenion Dysgu Ychwanegol – Canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n Nghategorïau A a B a disgyblion o ran Mounton House.

**11. <u>Rhaglen Waith y Cyngor a'r Cabinet</u>**

Nodwyd

**12. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Mawrth 17fed o Fawrth 2020 am 10.00am.

**Gorffennodd y cyfarfod am Time Not Specified**